**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Gweithgor Craffu - Hawliau Tramwy Cyhoeddus

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 22 Tachwedd 2023 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd T M White (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | C M J Evans | V A Holland |
| P R Hood-Williams | D H Jenkins | L R Jones |
| M W Locke | | |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cyng. Andrew Stevens, Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Chris Dale | Arweinydd Tîm Mynediad i Gefn Gwlad |
| Paul Meller | Rheolwr yr Amgylchedd Naturiol |
| Phil Marshall | Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad |
| Caroline Gregg | Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad |
| Kevin Thomas | Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad |
| Rachel Percival | Scrutiny Officer |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): Dim.

---

1 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

Datganodd y Cynghorwyr Andrew Stevens, Paxton Hood-Williams a Chris Evans fuddiant personol â Chofnod Rhif 4.

2 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Dim.

3 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

4 **Adroddiah Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

Roedd Aelod y Cabinet a Swyddogion perthnasol yn bresennol i roi trosolwg o'u hadroddiad briffio ac i ateb cwestiynau gan aelodau'r grŵp. Trafodwyd y materion canlynol:

- Manteision hawliau tramwy cyhoeddus, gan gynnwys iechyd corfforol, iechyd meddwl, manteision cymdeithasol, hwb i dwristiaeth ac ymwybyddiaeth o dreftadaeth. Codwyd pwysigrwydd y Cod Cefn Gwlad.
- Mae dyletswyddau statudol y Tîm Mynediad i Gefn Gwlad yn cynnwys rheoli, cynnal a chadw, amddiffyn, nodi a hyrwyddo hawliau tramwy cyhoeddus, llunio cynllun mynediad i gefn gwlad a gweithio gyda'r adran gynllunio.
- Mae gwaith y Tîm Mynediad i Gefn Gwlad yn cael ei oruchwylio gan Fforwm Mynediad Lleol Abertawe. Maent yn rhoi cyngor i'r cyngor ac i Gyfoeth Naturiol Cymru.
- Mae gan hawliau tramwy cyhoeddus gyllideb cynnal a chadw o oddeutu £45,000 y flwyddyn gyda chyllid grant ychwanegol lle bo hynny'n bosib. Trafodwyd pwysau ar y gyllideb a staffio a gofynnwyd am ragor o eglurdeb ynghylch materion ariannol.
- Mae gwahaniaethau rhwng y rheoliadau Cymraeg a Saesneg o ran y ffordd y mae'r gorchmynion dargyfeirio'n cael eu hysbysu.
- Trafodir gweithio o fewn yr adran fewnol ac asiantaethau allanol lle bo hynny'n bosib.
- Ymgynghorir y tîm wrth wneud gwaith cynllunio a pharatoi ymlaen llaw ar ddatblygiadau newydd i sicrhau bod y rhwydwaith llwybrau'n cael ei gynnal a'i gadw a'i wella, a'u bod wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith presennol a bod y cynllun datblygu'n cael ei adolygu.

5 **Trafodaeth a Chasgliadau**

Daeth aelodau'r Gweithgor i'r casgliadau canlynol a gwnaed yr argymhellion canlynol:

1. Canmolodd yr aelodau'r Tîm Mynediad i Gefn Gwlad am ddarparu gwasanaeth ardderchog gydag adnoddau cyfyngedig.
2. Gofynnodd yr aelodau i Aelod y Cabinet lobïo Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gyflwyno deddfwriaeth yng Nghymru mewn perthynas â gorchmynion dargyfeirio.
3. Gofynnodd y Gweithgor am wybodaeth ariannol ychwanegol.
4. Ystyried ymagwedd fwy integredig i'r rhwydwaith Teithio Llesol a'r map Hawliau Tramwy Cyhoeddus.
5. Gweithio mewn partneriaeth lle bo hynny'n bosib, gan gynnwys Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r timau Teithio Llesol i fwyafu'r cyfleoedd i rannu adnoddau.
6. Anogir cynghorwyr i hyrwyddo llwybrau lleol.
7. Datblygiad parhaus o farchnata lleol ac i gynnwys yr orsaf fysus, yr orsaf drenau a mannau sy'n boblogaidd ymhlith ymwelwyr ar gyfer hysbysebu.
8. Cydweithio rhwng y Tîm Mynediad i Gefn Gwlad a'r adran dwristiaeth i hyrwyddo gwyliau actif.
9. Ystyried cynlluniau prentisiaeth i helpu gyda gwaith yn yr awyr agored a chysgodi swyddogion.
10. Os bydd nifer yr ymwelwyr a'r defnydd yn cynyddu, gallai hyn ddangos yr angen am gyllidebau uwch.

Yn dilyn y cyfarfod hwn, caiff llythyr ei ysgrifennu oddi wrth gynullydd y gweithgor i Aelod y Cabinet sy'n crynhoi'r drafodaeth ac yn amlinellu meddyliau ac argymhellion y gweithgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.31 pm.

**Cadeirydd**